

Presennol: A. Jones (Cadeirydd), J. Roberts, A. Mummery, G. Parry, Stephen Edwards, D. James, E. Parry, G. C. Jones, H. Huws, Meirion Jones, A. Williams,
J. Evans (Cyngorwr Sirol)
Dafydd Owen (clerc)

1. Ymddiheuriadau: , B. Jones, D. Williams, Mervyn Jones,

2. Datganiadau Diddordeb.

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

3. Cyfrifon Mis Chwefror 2016

3.1 J. Roberts yn cynnig, A. Williams yn eilio. Derbyniwyd cyfrifon Chwefror fel rhai cywir.

4. Materion y Cyngor Sir

- 4.1 Meirion Jones yn nodi fod y Cyngorwr Sirol wedi cyfarfod gydag un o Ddirprwy Brif Weithredwr y Cyngor Sir Anwen Morgan ac yn nodi fod yn edrych yn debygol bod teulu o ffoaduriaid o Syria am gael eu lleoli yn ardal Menai.
- 4.2 Meirion Jones yn nodi bod trefniant casglu gwastraff yn newid i bob tair wythnos yn hytrach na dwy wythnos ym Mis Hydref
- 4.3 Meirion Jones yn nodi fod y Cyngor Sir yn ymgynghori ar safleoedd sipsiwn gydag Pentraeth, Penhesgyn a Gaerwen yn cael ei gysidro yn lleol a chadarnhau fod cyfarfod agored i'w gynnal ynglŷn â'r mater ym Mhenmynydd.
- 4.4 A. Mummery wedi bod ar ymweliad safle gyda chais Cynllunio'r Ganolfan Zorb, ac yn nodi ei fod yn disgwyl i'r mater gael ei gysidro yng nghyfarfod Cynllunio Mis Mawrth.

5. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 26 Ionawr 2016

5.1 J. Roberts yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.

6. Materion yn codi

- 6.1 Twr Marcwis - A. Mummery yn nodi ei fod yn gobeithio cael diweddariad yn y gwanwyn cynnar.
- 6.2 Plac ar dy Kyffin Williams - Meirion Jones wedi trafod gyda Delyth Moleneux ac yn gobeithio cael diweddariad ar y weithdrefn erbyn cyfarfod mis nesaf.
- 6.3 Mynedfa i'r Ganolfan Iechyd - A. Mummery a J. Evans wedi cael cadarnhad gan y Cyngor Sir mae nhw sydd yn gyfrifol am ei gynnal. Y Cyngor Sir i arolygu'r safle i weld os oes gwaith ei angen i rwystro'r dŵr glaw sydd yn sefyll.
- 6.4 Llwybr beicio - H. Huws yn cadarnhau fod gwaith ar y lon wedi gwneud ond ddim y llwybr beicio. Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir.
- 6.5 To fflat y Neuadd Goffa - A. Jones yn nodi ei fod heb dderbyn amcan bris gan G. Pritchard i wneud y gwaith. Nodwyd fod angen cadw llygaid ar y to tan fydd gwaith wedi'i wneud.
- 6.6 Llawr y siglenni maes chwarae - Disgwyl am amcan brisiau gan Andre Le Cras i wneud y gwaith.
- 6.7 Niferoedd yn mynychu cyfarfodydd - J. Roberts yn nodi fod sawl un yn absennol o gyfarfod heno i gymharu â nifer wnaeth fynychu cyfarfod sesiwn cod ymddygiad Star a Penmynydd.
- 6.8 Ty Stesion Pringles - Clerc wedi ysgrifennu at Pringles, dim ymateb wedi'i dderbyn hyd yn hyn. Clerc i ddilyn i fyny
- 6.9 Cwyn yn y fynwent - Cytunwyd i yrru'r llythyr a ddrafftwyd gan y clerch at gwmni ymgymerywr lleol.
- 6.10 Grant memorials fund - Andre Le Cras wedi cadarnhau ni allith o wneud yr adroddiad perthnasol ond yn nodi fod Cyngor Tref Gwalchmai wedi cael gwaith tebyg wedi'i wneud yn ddiweddar. Clerc i ofyn am gyngor pellach gan Gyngor Tref Gwalchmai
- 6.11 Biniaw Baw Ci - Meirion Jones i ddilyn i fyny gyda'r Cyngor Sir. Nodwyd bod gryn dipyn o faw ci o gwmpas y pentref.

7. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod Pwyllgor Meysydd Chwarae 09 Chwefror 2016

7.1 A. Williams yn cynnig, A. Jones yn eilio, derbyniwyd fel rhai cywir

8. Materion yn codi o'r cofnodion

8.1 Ffens rhwng cae pêl droed a thai Trem Eryri - Andre Le Cras am alw ar y safle i weld pa waith sydd ei angen

8.2 Offer cadw'n heini yn y parc - cytunwyd i'r clerc edrych am grantiau a phrisiau ar gyfer archebu a gosod yr offer. Stephen Edwards yn nodi ei fod am holi o gwmpas am brisiau am lawr newydd i'r offer presennol sydd wedi dirywio, ac am ddiweddariad gan Ffrindiau'r Parc a'r Gors ar eu sefyllfa bresennol.

9. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Neuadd Goffa 09 Chwefror 2016

9.1 A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio, derbyniwyd fel rhai cywir

10. Materion yn codi o'r cofnodion

10.1 Llechi wedi disgyn oddi ar y to - Andre Le Cras am alw allan i'w drwsio.

11. Glanhau'r Neuadd Goffa

11.1 Nodwyd bod dipyn o lwch yn casglu yn y Neuadd Goffa. Cytunwyd i'r clerc ysgrifennu at y defnyddwyr yn gofyn iddynt lanhau'r Neuadd ar ôl ei defnyddio.

12. Polisi Iaith

12.1 J. Roberts yn nodi ei fod wedi derbyn cwynion nad oes copïau Saesneg ar gael o ddogfennau'r Cyngor Bro ar yr hysbysfwrdd na'r Wefan. Clerc i edrych am gopi o bolisi iaith y Cyngor Bro erbyn Mawrth, os nad oes un ar gael yna i gael copi o dempled. Cytunwyd y dylid rhoi gwybodaeth fras mewn pwyntiau bwled mewn Saesneg, a rhoi manylion cyswllt ar gael os oes angen rhagor o wybodaeth.

13. Tirmon 2016/17

13.1 Dyfynbris wedi derbyn gan Mon Grass Cutting Services am y flwyddyn 2016/17. A. Williams yn cynnig, D. James yn eilio i dderbyn y pris am y flwyddyn.

14. Maes Parcio'r Swyddfa Bost

14.E-bost wedi derbyn gan y Cyngor Sir yn gosod allan opsiynau gwahanol. Cytunwyd mai dim ond gofyn i'r CSYM ar hyn o bryd os ydy'r Maes Parcio mewn cyflwr digon da i'w drosglwyddo.

15. Ceisiadau Cynllunio

15.1 31C78HDEL - Cais o dan Adran 73 i diwygio amodau (14) a (8) i alluogi newid y cynlluniau a gafodd ei gymeradwyo yn flaenorol ynghyd a dileu amodau (15), (16) ac (17) yn ymwneud a Chod Cartrefi Cynaliadwy o ganiatâd cynllunio rhif 31CC78/VAR (Cais amlinellol ar gyfer codi tri thŷ) ar dir ger Creigar Land, Llanfairpwll - Nodwyd fod yn anodd gweld o'r cynlluniau os oes gwaith i'w wneud i sortio'r tir gwlyb.

15.2 31C210H - Cais llawn ar gyfer codi annedd sydd yn cynnwys balconi, codi modurdy ar wahân ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau ar dir yn Graig, Lon Graig, Llanfairpwll - Nodwyd fod nifer o drigolion lleol yn gwrthwynebu y cais oherwydd ei effaith ar y tirlun.

16. Gohebiaeth

16.1 Cylchlythyr - Dan do Môn - Derbyn y wybodaeth

16.2 Llythyr - CSYM - Ymgynghoriad y Dreth Gyngor (Premiwm ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor) - Cytunwyd bod y Cyngor Bro yn ei gefnogi mewn egwyddor

16.3 Llythyr - Urdd Môn - Llythyr diolch - Derbyn y Wybodaeth

16.4 Llythyr Grid Cenedlaethol - Ynglŷn â chysylltiad Gogledd Cymru (gwaith ecolegol a pheirianyddol) - H. Huws yn nodi ei bod wedi cyfarfod gydag Albert Owen MP, ac o'r ymgynghoriad mae'n ymddangos bod anifeiliaid gwyllt yn cael mwy o bwyslais na pobl leol. Nodwyd hefyd bod yn ymddangos nid oes cadarnhad i'w gael ar y 'pellter isafswm' rhwng pobl a pheilonau, nac y tan ddaearu drwy'r Fenai.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 29 Mawrth 2016 am 7.00yh yn y Neuadd Goff

Arwyddwyd..... (Cadeirydd)Dyddiad